

Cyngor Cymuned Llandybie

Polisi Cronfeydd wrth Gefn

1 Bydd y symiau o arian a gedwir yn y Cronfeydd Cyffredinol a'r Cronfeydd a Glustnodwyd yn cael eu nodi ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol ac yn cael eu riportio i'r Cyngor Llawn ar yr un adeg y cyflwynir y Datganiad o Gyfrifon statudol. Pan fydd y Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd yn cynnwys Cronfeydd Cyfalaf a Benthyciadau nas Gwariwyd, bydd y rhain yn cael eu hadnabod yn benodol.

2 Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd

Bydd y Cyngor yn cadw'r fath symiau yn ei gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a ystyrir bod eu hangen i gynnal gwariant ar brosiectau penodol yn y dyfodol, i'w defnyddio tuag at wariant refeniw sylweddol yn y dyfodol neu i ddiwallu dyledion disgwylidig. Dylai'r Pwyllgor Cyllid argymhell maint y cronfeydd hyn, gan dalu'r sylw dyledus i'r gwaith sy'n deillio o weithgareddau'r Pwyllgor Datblygu Cymunedol.

3 Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol

3.1 Bydd y Cyngor yn cynnal lefel darbodous o gronfeydd cyffredinol sy'n ddigonol i sicrhau y gall ddiwallu ei ymrwymadau parhaus, ymateb i unrhyw angen am wariant brys neu wariant nas cynlluniwyd, a goresgyn unrhyw anhawster llif arian a all godi.

3.2 Fel arfer, bydd y Cyngor yn anelu at gynnal cronfeydd cyffredinol o tua 60%, o fewn y rychwant 55% i 65%, o'r costau cynnal blynyddol net a gyllidebwyd, gan eithrio eitemau twf ac eitemau a gyllidir gan ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd. Mewn blynyddoedd pan fydd y cronfeydd cyffredinol yn fwy na 60%, rhaid i'r Cyngor Llawn benderfynu cytuno ag argymhelliad y Pwyllgor Cyllid ynghylch y swm a gedwir yn y cronfeydd cyffredinol.

Mae "costau cynnal blynyddol net a gyllidebwyd" yn golygu'r gwariant y mae pob pwyllgor wedi amcangyfrif y bydd yn gwario ar ei wasanaethau parhaus yn ystod y flwyddyn ganlynol, gan eithrio'r incwm y mae'n disgwyl derbyn, ar ôl i'r Pwyllgor Cyllid a Pholisi Cyffredinol wneud unrhyw newidiadau i'r gyllideb, a hynny am ba bynnag reswm.

Mae "eitemau twf" yn golygu eitemau ychwanegol dewisol a adnabyddir yn benodol gan y Cyngor.

Argymhellwyd y polisi hwn gan y Pwyllgor Polisi ar Chwefror 7^{fed}, 2018, a'i gymeradwyo gan y Cyngor Llawn ar Chwefror 28^{ain}, 2018. Adolygir y polisi mewn 12 mis.

Cadeirydd: _____ Clerc: _____